Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Polisi Cwynion

Mae gweithdrefn gwyno:
yn ffordd o sicrhau y gall unrhyw un gyda diddordeb yn yr ysgol leisio pryder, yn yr hyder y bydd yn cael ei glywed ac os yw ar sail gadarn, y bydd yn cael ei drin mewn dull priodol ac amserol.

I grynhoi mae gweithdrefn gwyno yn darparu fframwaith fel:
• Gall unrhyw un gyda diddordeb yn yr ysgol (rhieni, aelodau staff, llywodraethwyr, disgyblion, aelodau o'r gymuned leol ac eraill) ddeall yn eglur sut y gallant leisio cwynion, a pha ymateb a gânt ym mhob cam.
• Mae staff ysgol a llywodraethwyr yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn eglur wrth ymateb i gwynion.
• Gall ysgolion ddysgu gwersi a gwella gweithdrefnau o ganlyniad i achosion unigol a gallant fonitro tueddiadau tymor hir.
• Mae'r holl bartïon yn sicr o ddull gweithredu cyson sydd yn cael ei gofnodi.

Ymchwilio i gwynion
Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Castell-nedd yn argymell bod y person sy'n delio â'r gŵyn ym mhob cam yn sicrhau ei bod/fod:
• yn holi beth sydd wedi digwydd cyn belled, a phwy sydd wedi cymryd rhan;
• yn sicrhau ei bod/fod yn deall union natur y gŵyn a beth sydd heb ei ddatrys;
• yn cwrdd â'r achwynydd neu'n cysylltu â hwy (os yn ansicr neu os oes angen rhagor o wybodaeth);
• yn sicrhau ei bod/fod yn deall union beth ym marn yr achwynydd fyddai'n datrys y sefyllfa;
• yn siarad â phawb sydd ynghlwm â'r achos a/neu'r rhai sy'n destun y gŵyn, gan ganiatáu iddynt ddod â rhywun yn gwmni iddynt os dymunant;
• yn ymdrin â materion â meddwl agored ac;
• yn cadw cofnodion.

Trin gwybodaeth
Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Castell-nedd yn argymell bod cwynion yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac mai dim ond y rhai hynny sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r gŵyn a dod i benderfyniad a ddylai gael gwybod beth yw natur y gŵyn Egwyddor gyffredinol yw bod gan y sawl a gyhuddir yr hawl i wybod beth yw sylwedd y cyhuddiad. Er hynny, mae achosion lle gall y Corff Llywodraethu benderfynu cadw gwybodaeth yn ôl e.e. lle mae angen amddiffyn y ffynhonnell (neu le mae rheswm cyfreithiol pam na ddylid rhyddhau'r wybodaeth) neu i gwrdd â gofynion diogelu data.

Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Y DULL 3 CHAM O DDATRYS CWYNION

Cyflwyniad

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Castell-nedd wedi sefydlu dull gweithredu tri cham:

• Cam 1 – gwneir cŵyn i'r derbynnydd cyntaf o fewn yr ysgol (ac fe'i datrysir ganddo/i).
• Cam 2 – cyfeirir y mater i'r pennaeth i ymchwilio iddo, penderfynu arno a'i ddatrys
• Cam 3 – cyfeirir y mater i'r Corff Llywodraethu i ymchwilio iddo, penderfynu arno a'i ddatrys.

Cam 1 - Cŵyn a gyflwynir i ac a ddatrysir gan y derbynnydd cyntaf o fewn yr ysgol

Yn ystod y cam hwn gellir gwneud cŵyn ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gellir cwyno i aelod staff, pennaeth uned, aelod staff arall neu bennaeth. Gall gweithdrefn yr ysgol ddarparu i gwynion gael eu cyfeirio yn y cam hwn i swyddog cwynion dynodedig. Fe fydd y swyddog cwynion dynodedig yn aelod o Uwch Dîm Rheoli'r ysgol, yn dilyn ei enwebiad / ei henwebiad gan y Pennaeth.

Mae'r Corff Llywodraethu'n cynghori'n gryf fod y sawl sy'n derbyn y gŵyn yn gyntaf (neu'r swyddog cwynion) a'r achwynydd yn gwneud pob ymdrech i ddatrys cwynion yn y cam hwn. Mewn sawl achos bydd hyn yn bosibl.

Dylid rhoi cyfle i'r achwynydd i gwrdd â'r aelod staff y maent wedi codi'r mater gydag ef/hi (neu'r swyddog cwynion) fel bod penderfyniad yn cael ei wneud, fel arfer o fewn 10 diwrnod ysgol, a'i gyfleu i'r achwynydd. Gall y cofnod o'r gŵyn gynnwys unrhyw drafodaethau a chyfweliadau.

Os na lwyddir i ddatrys y gŵyn mewn ffordd sy'n bodloni'r achwynydd, dylai'r aelod staff roi gwybod i'r achwynydd, ar lafar neu'n ysgrifenedig, fod ganddynt yr hawl i fynd â'r gŵyn at y pennaeth. Dylid rhoi copi o weithdrefn gwyno'r ysgol i'r pennaeth os nad yw wedi cael copi yn ystod y broses ystyried yng ngham 1.

Os y pennaeth yw'r cyntaf i dderbyn cŵyn, gall ef neu hi benderfynu a ddylid dirprwyo'r gwaith o ystyried y gŵyn i aelod staff arall o dan gam 1 neu fynd ymlaen at gam 2.

Cofnodi

Wrth ystyried cwynion yng ngham 1, argymhellir bod cofnod o'r canlynol yn cael ei gadw:

• Enw'r achwynydd
• Y dyddiad y derbyniwyd cwyn
• Disgrifiad cryno o'r gŵyn
• Y camau gweithredu a gymerwyd i ddatrys y gŵyn a'r canlyniad
• Materion i'r ysgol ac aelod arweiniol o'r staff weithredu arnynt.

Cam 2 – Dan ystyriaeth gan y Pennaeth

Ni fydd y gŵyn yn symud i gam 2 fel rheol nes iddi gael ei hystyried gyntaf o dan gam 1. Gallai'r mater symud ymlaen ar unwaith i gam 2 os yw'r pennaeth yn meddwl bod hynny'n briodol.

Yn y cam hwn mae'n arfer da bod y gŵyn yn ysgrifenedig fel bod y sylwedd yn eglur. Ar ôl derbyn y gŵyn dylai'r pennaeth ei chydnabod yn ysgrifenedig, gan amgáu copi o'r weithdrefn gwyno a chan roi dyddiad targed ar gyfer darparu sylwedd i'r gŵyn. Bydd hyn yn digwydd o fewn 10 diwrnod ysgol fel arfer. Os nad oes modd delio â'r mater o fewn y cyfnod hwn dylid rhoi gwybod i'r achwynydd a rhoi dyddiad iddo/iddi pryd y disgwylir y bydd y cyfnod ystyried yn dod i ben.

Byddai'n gymorth wrth ymchwilio i'r gŵyn a'i datrys pe bai'r achwynydd yn cael cyfle i gwrdd â'r pennaeth. Gall yr achwynydd ddymuno cael ei hebrwng gan gyfaill neu berthynas naill ai i'w gefnogi neu i siarad ar ei ran os oes angen. Gall y pennaeth ddymuno cael person arall yn bresennol i fod yn dyst i'r drafodaeth. Byddai'n ddefnyddiol hefyd cadw nodyn ysgrifenedig o'r cyfweliadau, sgyrsiau ffôn ac unrhyw gamau gweithredu eraill.
Bydd y pennaeth yn cyfleu ei b/phenderfyniad yn ysgrifenedig i'r achwynydd.

Cofnodi

Wrth ystyried cwynion yng ngham 2 dylai cofnod gynnwys:
• enw a chyfeiriad yr achwynydd
• dyddiad a manylion y gŵyn
• y camau gweithredu a gymerwyd i ddatrys y gŵyn a chofnod ysgrifenedig o drafodaethau, cyfweliadau a thystiolaeth a gasglwyd
• canlyniad
• y dyddiad yr hysbyswyd y canlyniad i'r achwynydd
• materion i'r ysgol ac aelod staff arweiniol weithredu arnynt.

Cam 3 – Dan ystyriaeth gan y Corff Llywodraethu

Os nad yw achwynydd yn fodlon ar ganlyniad ystyriaeth y pennaeth gall y Corff Llywodraethu ystyried y mater. Dylai hyn ddigwydd yn anaml ond dylai'r Corff Llywodraethu fod yn barod i ddelio â chwynion wrth iddynt godi. Bydd y Corff Llywodraethu am fod yn fodlon bod camau 1 a 2 wedi cael eu disbyddu cyn ystyried y mater, neu fod rhesymau arbennig dros beidio â dilyn camau 1 a 2.
Bydd y gŵyn yn cael ei chlywed gan y pwyllgor cwynion.

Galw gwrandawiad o Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu

Cynghorir bod aelodaeth y pwyllgor yn cael ei gwirio cyn bob gwrandawiad. Os yw'r pwyllgor yn cynnwys unrhyw lywodraethwr sydd wedi ymwneud o'r blaen a'r gŵyn gellir amau tegwch gwirioneddol neu ymddangosiadol yr achos. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad o duedd, dylid gofalu sicrhau nad oes gan unrhyw aelod o'r pwyllgor gysylltiadau personol gyda'r achwynydd neu gyda'r sawl y gwneir y gŵyn yn ei erbyn. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch gallu person i weithredu'n ddiduedd neu'n deg neu os oes gwrthdaro budd neu wrthdaro budd posibl, gall y Corff Llywodraethu benderfynu a ddylai'r person hwnnw fod yn aelod o'r pwyllgor cwynion neu unrhyw bwyllgor apeliadau. Gellir penodi aelodau yn eu lle yn ôl yr angen.
Dylai Cadeirydd y Llywodraethwyr gydnabod derbyn cwyn, fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol. Dylid gwneud trefniadau i bwyllgor/panel cwynion y Corff Llywodraethu gwrdd i wrando'r gŵyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn y gŵyn.
Dylai'r llythyr cydnabod osod amserlen a gall egluro:
• bod hawl gan bob parti sydd ynghlwm wrth y gŵyn i ddarparu tystiolaeth/dogfennaeth ysgrifenedig y maent yn dymuno i'r pwyllgor ei hystyried
• y dyddiad olaf i'r ddau barti ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r fath
• y dyddiad olaf ar gyfer danfon dogfennau ymlaen at y sawl y dygwyd y gŵyn yn ei erbyn
• y dyddiad olaf i'r sawl y dygir cwyn yn ei erbyn anfon ei ateb yn ôl
• y dyddiad y bydd yr ymateb hwnnw ar gael i'r achwynydd
• dyddiad y gwrandawiad (os yw ar gael ar y pwynt hwn).

Mae'n bwysig bod y sawl y dygwyd y gŵyn yn ei erbyn, yn cael digon o amser, 10 diwrnod ysgol fel arfer, i ystyried yr holl dystiolaeth cyn rhoi ymateb a chyn i unrhyw wrandawiad gael ei gynnal.
Dylai cadeirydd y pwyllgor sicrhau bod yr achwynydd ac aelodau'r pwyllgor yn cael rhybudd ysgrifenedig, o leiaf bum diwrnod ysgol fel arfer cyn dyddiad y gwrandawiad. Gall fod yn y llythyr (a nodwyd dau baragraff yn ôl), neu mewn llythyr ar wahân.
Dylai'r llythyr hysbysu'r partïon o:
• amser a lle gwrandawiad y pwyllgor
• y sail ar gyfer y gŵyn, gyda chopïau o'r holl ddogfennau perthnasol
• hawl pob parti i gael eu hebrwng neu eu cynrychioli gan berson o'u dewis
• manylion am y sawl a fydd yn bresennol a'u swyddogaeth
• hawl y pwyllgor i fynd ymlaen gyda gwrandawiad llafar yn absenoldeb un o'r partïon neu'r ddau os na roddir rheswm digonol pam na ddylent wneud hynny
• hawl y partïon i wneud cais i ohirio'r gwrandawiad os oes rheswm da pam na allant fod yn bresennol.

Trefniadau a awgrymir ar gyfer Gwrandawiad o'r Pwyllgor Cwynion
Awgrymir y canlynol:
• ni ddylai fod yn ofynnol i dystion fod yn bresennol ond er mwyn rhoi eu tystiolaeth ond cânt aros trwy gydol y cyfarfod os yw'r pwyllgor a'r achwynydd yn cytuno
• caiff aelodau'r pwyllgor ofyn cwestiynau i unrhyw un
• ar ôl cyflwyno pawb, bydd y cadeirydd yn gwahodd yr achwynydd neu eu cynrychiolydd i egluro eu cwyn a chael eu dilyn gan eu tystion
• dylai'r achwynydd grynhoi eu cwyn
• wedyn dylai'r pennaeth neu dystion priodol eraill egluro sut mae'r ysgol wedi gweithredu a dilynir hyn gan dystion yr ysgol
• dylai'r pennaeth grynhoi camau gweithredu'r ysgol a'i hymateb i'r gŵyn
• mae'r cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ddau barti y byddant yn cael ateb ysgrifenedig gan y pwyllgor, fel rheol o fewn 5 diwrnod ysgol
• mae'r ddau barti a'r holl dystion yn gadael tra bydd y pwyllgor yn trafod ac yn penderfynu ar y mater.

Y Penderfyniad
Unwaith bydd yr holl dystiolaeth wedi cael ei chyflwyno dylai'r pwyllgor cwynion ystyried ei benderfyniad yn breifat. Cyn iddo wneud hyn gall ofyn cyngor os dymuna gan yr awdurdod addysg leol neu unrhyw gorff perthnasol arall. Dylai ymgynghorwyr felly adael unwaith bydd eu cyngor wedi cael ei roi.
Rhaid i'r pwyllgor ystyried:
• Y dystiolaeth
• A yw'r pennaeth neu eraill wedi cydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r ysgol
• A oes sylwedd i'r gŵyn
Byddai'r penderfyniad yn cael ei seilio fel arfer ar gytundeb mwyafrifol gydag ail bleidlais neu bleidlais penderfynu o'r gadair os oes angen. Rhaid i'r penderfyniad gynnwys:
• a yw'r gŵyn yn cael ei chadarnhau ai peidio
• unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd gan y Corff Llywodraethu, yr ysgol, y pennaeth a/neu aelodau staff yng ngoleuni'r penderfyniad
• unrhyw argymhellion ar gyfer newid i bolisïau neu weithdrefnau'r ysgol i sicrhau nad yw problemau tebyg yn codi yn y dyfodol.

Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Dylid anfon copi ysgrifenedig o benderfyniad y pwyllgor i'r achwynydd fel arfer o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl y gwrandawiad, gan amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad a dros unrhyw weithredu adferol a gymerir gan yr ysgol.
Pan fydd penderfyniad y pwyllgor cwynion yn hysbys dylai pob parti:
• fod wedi deall y rhesymau dros y penderfyniad, y dylid eu mynegi yn eglur ac yn gryno ar ffurf ysgrifenedig
• fod yn fodlon bod y gwrandawiad wedi bod yn deg, hyd yn oed os nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

***Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Castell-nedd wedi penderfynu <u>nad</u> yw gweithdrefnau cwyno'r ysgol yn darparu ar gyfer cam apelio**.

Cofnodi
Yn achos cwynion y delir â hwy yng ngham 3 dylai'r cofnod gynnwys:
• adroddiad llawn am waith y pwyllgor cwynion, y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r holl ddogfennau perthnasol eraill
• y penderfyniad a wnaed ac unrhyw gam gweithredu i'w gymryd gan yr ysgol, y pennaeth, y Corff Llywodraethu neu aelod o'r staff
• dyddiad y penderfyniad a'r dyddiad yr anfonwyd y llythyr penderfynu at yr achwynydd.

Datrys Cwyn yn derfynol
Unwaith y bydd y Corff Llywodraethu wedi disbyddu ei weithdrefnau ei hun dylai geisio datrys y gŵyn yn derfynol. Os ar ddiwedd cam 3 ac ar ôl ystyriaeth gan y pwyllgor cwynion ni chadarnheir y gŵyn dylai'r llythyr penderfynu egluro:
• bod ymchwil drylwyr wedi cael ei chynnal i'r gŵyn
• na fydd y Corff Llywodraethu a'r pennaeth yn ailagor y mater
• na fydd unrhyw faterion newydd yn arwain at ailagor cwyn a ddatryswyd yn barod
• os bydd materion eraill yn codi bydd y rheini'n cael eu trin fel cwyn newydd ond dim ond os gellir profi eu bod yn wahanol i faterion a godwyd o dan gŵynflaenorol.

ADDASU'R DULL 3 CHAM
Mae nifer o achosion lle mae'r egwyddorion a amlinellwyd uchod yn berthnasol, ond lle nad yw'r gŵyn yn ei benthyg ei hun i'r dull tri cham a bydd rhaid gwneud addasiadau. Amlinellir y rhain isod, sef cwynion sy'n ymwneud â'r holl Gorff Llywodraethu, llywodraethwr neu lywodraethwyr unigol gan gynnwys y cadeirydd a'r is-gadeirydd, y pennaeth neu'r swyddog cwynion.

Cwyn yn erbyn y Pennaeth
Os yw'r gŵyn yn erbyn y pennaeth, dylai'r derbynnydd cyntaf ei chyfeirio i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Gall gweithdrefn gwyno'r Corff Llywodraethu nodi trefniant i'r cadeirydd ddirprwyo'r gwaith o ymchwilio i gŵyn i'r is-gadeirydd neu i lywodraethwr dynodedig. Wedi derbyn cwyn am y pennaeth dylai'r cadeirydd:
• ystyried o dan y weithdrefn gwyno os dylid ystyried y mater
• edrych i weld a oes angen cyfeirio'r mater i awdurdodau eraill megis yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol

• ystyried a yw ef neu hi angen dirprwyo'r gwaith ystyried i aelod arall o'r Corff Llywodraethu oherwydd bod y cadeirydd wedi ymwneud â'r mater o'r blaen neu oherwydd y berthynas sydd rhwng y cadeirydd a'r pennaeth.
Pe bai'r cadeirydd, yr is-gadeirydd neu lywodraethwr dynodedig yn ystyried y gŵyn, byddai hyn yn cyfrif fel ymchwiliad o dan gam 2 o'r weithdrefn a dylai'r llywodraethwr sy'n ymchwilio wneud hyn yn unol â'r weithdrefn gytunedig. Ni ddylai'r llywodraethwr sy'n cynnal yr ymchwiliad fod yn aelod wedyn o'r pwyllgor cwynion.
Dylai'r llywodraethwr sy'n ymchwilio ddatgan unrhyw wrthdaro budd posibl.
Yn dilyn y broses hon os nad yw'r achwynydd yn fodlon dylid eu cynghori i ysgrifennu at:
• yr is-gadeirydd – os yw'r cadeirydd wedi ymchwilio o dan gam 2, neu
• y cadeirydd – os yw'r is-gadeirydd neu lywodraethwr dirprwyedig arall wedi ymchwilio o dan gam 2 a ddylai gyfeirio'r mater i gadeirydd y pwyllgor cwynion i'w ystyried yn unol â cham 3 o'r broses.

Cwynion sy'n ymwneud â'r Swyddog Cwynion
Os yw'r pennaeth wedi penodi aelod staff fel swyddog cwynion i ddelio â chwynion yng ngham cyntaf y weithdrefn ac os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r swyddog cwynion, dylid trosglwyddo'r gŵyn i'r pennaeth.
Gall y pennaeth benderfynu dirprwyo'r ymchwiliad i aelod arall o'r staff uwch o dan gam 1 o'r weithdrefn neu i ymchwilio iddo ei hun o dan gam 2.
Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar y canlyniad dylid eu cynghori i ysgrifennu'n ffurfiol at gadeirydd y llywodraethwyr yn unol â cham 3 o'r broses.

Cwyn yn erbyn Cadeirydd y Llywodraethwyr
Dylid anfon unrhyw gwynion am gadeirydd y llywodraethwyr at yr is-gadeirydd a all roi gwybod yn syth i'r Pennaeth a'r AALl lle bo'n berthnasol. Dylai'r is-gadeirydd:
• edrych i weld a oes angen cyfeirio'r mater i awdurdodau eraill megis yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol
• ystyried a ddylai geisio cyngor gan yr AALl.
Gallai'r is-gadeirydd ystyried ymchwilio i'r gŵyn neu ddirprwyo'r dasg hon i lywodraethwr dynodedig arall. Byddai hyn yn cyfrif fel ymchwiliad o dan gam 2 o'r weithdrefn. Neu gallai'r is-gadeirydd gyfeirio'r mater yn uniongyrchol i bwyllgor cwynion y Corff Llywodraethu i ymchwilio iddo a'i ystyried. Dylai cadeirydd y pwyllgor cwynion fynd ymlaen wedyn yn unol â'r broses ystyried ar gyfer cam 3.
Argymhellir nad yw'r mater yn cael ei ddwyn i sylw'r Corff Llywodraethu nes ei fod wedi cael ei benderfynu gan y pwyllgor cwynion.

Cwyn yn erbyn y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr
Dylid anfon cwynion yn erbyn y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr at is-gadeirydd y llywodraethwyr a dylai hwnnw roi gwybod i'r AALl. Dylai'r is-gadeirydd:
• edrych i weld a oes angen cyfeirio'r mater i awdurdodau eraill megis yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol
• ystyried a ddylai geisio cyngor gan yr AALl.
Gallai'r is-gadeirydd ystyried ymchwilio i'r gŵyn neu ddirprwyo'r dasg hon i lywodraethwr dynodedig arall. Byddai hyn yn cyfrif fel ymchwiliad o dan gam 2 o'r weithdrefn. Neu gallai'r is-gadeirydd gyfeirio'r mater yn uniongyrchol i bwyllgor cwynion y Corff Llywodraethu i ymchwilio iddo a'i ystyried. Dylai cadeirydd y pwyllgor cwynion fynd ymlaen wedyn yn unol â'r broses ystyried ar gyfer cam 3.

Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Rhaid i'r is-gadeirydd neu'r llywodraethwr dynodedig ddatgan unrhyw wrthdaro budd posibl cyn ystyried y mater o dan gam 2 ac os oes angen ddirprwyo'r mater i lywodraethwr arall.

Cwyn yn erbyn y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am weithredoedd cadeirydd ac is-gadeirydd y llywodraethwyr i glerc y Corff Llywodraethu a ddylai gyfeirio'r mater i gadeirydd y pwyllgor cwynion. Dylai cadeirydd y pwyllgor cwynion geisio cyngor gan yr AALl a dylai drefnu i wrandawid o'r pwyllgor cwynion gael ei drefnu yn unol â cham 3 o'r broses.

Os yw cadeirydd y pwyllgor cwynion yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y llywodraethwyr, dylid cyfeirio'r gŵyn i lywodraethwr profiadol a ddylai gadeirio'r pwyllgor cwynion ar gyfer yr achos arbennig hwnnw.

Os yw cadeirydd ac is-gadeirydd y llywodraethwyr hefyd yn cadeirio'r pwyllgor cwynion, bydd angen i'r pwyllgor hwn benodi cadeirydd newydd i wrando'r gŵyn.

Cwyn yn erbyn Llywodraethwr (gan gynnwys yr Is-gadeirydd) neu Grŵp o Lywodraethwyr

Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am weithredoedd llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr i gadeirydd y llywodraethwyr ar yr amod nad yw'r cadeirydd yn un o'r grŵp o lywodraethwyr y cwynir amdanynt. Os oes a wnelo'r cadeirydd â'r mater ac os yw'n rhan o'r grŵp y cwynir amdanynt, dylid cyfeirio'r gŵyn i'r is-gadeirydd, ar yr amod nad yw hefyd yn rhan o'r grŵp o lywodraethwyr. Dylai'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd ddelio â'r gŵyn wedyn yn yr un ffordd â chŵyn yn erbyn y Pennaeth.

Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn rhan o'r grŵp o lywodraethwyr, dylid cyfeirio'r gŵyn i glerc y Corff Llywodraethu a ddylai gyfeirio'r mater i gadeirydd y pwyllgor cwynion i weithredu arno o dan gam 3 o'r broses. Os cadeirydd y pwyllgor cwynion yw cadeirydd neu is-gadeirydd y llywodraethwyr, dylid cyfeirio'r gŵyn i lywodraethwr profiadol a ddylai gadeirio'r pwyllgor cwynion ar gyfer yr achos arbennig hwnnw.

Os yw'r mater yn mynd ymlaen i gael ei ystyried gan y Corff Llywodraethu yng ngham 3 bydd angen cymryd gofal arbennig i sicrhau bod aelodau'r pwyllgor cwynion yn cael eu gweld yn ddiduedd.

Os yw nifer o lywodraethwyr yn destun cwyn, ac o ganlyniad fod rhy ychydig o lywodraethwyr ar ôl i gyflawni gofynion y gweithdrefnau cwyno o ran ffurfio pwyllgor cwynion yna dylid defnyddio'r gweithdrefnau 'corff llywodraethu cyfan' isod.

Cwynion sy'n ymwneud â'r Corff Llywodraethu Cyfan

Dylid anfon unrhyw gŵyn am weithredoedd y Corff Llywodraethu cyfan at glerc y llywodraethwyr a ddylai roi gwybod yn syth i'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr a'r AALl.

Os derbynnir cwyn am weithredoedd Corff Llywodraethu, dylai'r AALl ystyried a yw'r mater yn un i'w ystyried yn unol ag Adran 15 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygir gan adran 55 Deddf Addysg 2002. Yn ôl darpariaethau'r ddeddf hon lle mae ysgol yn peri pryder gall yr AALl gyhoeddi rhybudd ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethu yn unol â'i bwerau ymyrryd.

Os nad yw unrhyw gam gweithredu'n briodol o dan y darpariaethau hyn gall yr AALl ddymuno sicrhau cytundeb y Corff Llywodraethu fod y gŵyn yn cael ei gwrando gan bwyllgor sy'n annibynnol o'r Corff llywodraethu ac wedi ei ffurfio'n arbennig at y pwrpas hwnnw.

Ysgol Gymraeg Castell-nedd

Os bydd yr AALl yn penderfynu peidio â dilyn unrhyw gamau gweithredu, gall y clerc i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r achwynydd y bydd y mater yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu. Os yw'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer y Corff Llywodraethu dipyn o amser i ffwrdd, gall cadeirydd y llywodraethwyr a'r clerc ystyried trefnu cyfarfod ar wahân i ystyried y gŵyn. Gellir rhoi gwybod i'r achwynydd am y cam gweithredu arfaethedig ac amseriad cyfarfod y Corff Llywodraethu. Gall yr achwynydd gael yr un cyfle i roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig ac y byddai wedi ei gael pe bai'r mater yn cael ei drin gan bwyllgor cwynion y Corff Llywodraethu.
Gall y Corff Llywodraethu edrych ar y dystiolaeth a dod i benderfyniad yn yr un ffordd ag y byddai ei bwyllgor cwynion. Gall clerc y Corff Llywodraethu anfon y canlynol at yr achwynydd:

• y penderfyniad ac eglurhad o'r rhesymau dros y penderfyniad
• eglurhad os bydd yr achwynydd yn anfodlon yna gall ofyn i'r AALl, neu Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r weithdrefn a ddefnyddir gan y Corff Llywodraethu ond nid y penderfyniad ei hun.

Llofnod: **(Cadeirydd y Corff Llywodraethu)**

Dyddiad: